# Cod ymarfer ar gyfer System Cynrychiolwyr Ysgol

Cod 16: 2025 Fersiwn 1.0

Daw i rym: 1 Medi 2026

PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

| Dyddiad | Yn disodli | Disgrifiad o'r Newid |
|---|---|---|
| 27 Awst 2026 | Ddim yn berthnasol | Dim angen newidiadau ar ôl yr adolygiad blynyddol |
| 22 Ionawr 2026 | Fersiwn 2020 | Newidiadau i adlewyrchu System Cynrychiolwyr Ysgol newydd |
| 1 Mawrth 2020 | Fersiwn 01 2018 | Atodiad ychwanegol a mân newid i eiriad cyfrifoldebau Ysgol. |

| Perchennog y Ddogfen | Cymeradwywyd Gan | Dyddiad Cymeradwyo | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|
| Undeb y Myfyrwyr. | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd. | 27 Awst 2026 | Blynyddol |

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Rheoliadau hyn gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Pennaeth y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

# Cod ymarfer ar gyfer System Cynrychiolwyr Ysgol

Mae'r Cod hwn yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau Cynrychiolwyr Ysgol.

## Egwyddorion Sylfaenol

1. Mae Cynrychiolwyr Ysgol yn rhan hollbwysig o Brifysgol Bangor. Drwy weithredu system ledled y Brifysgol gyfan, gall Cynrychiolwyr Ysgol roi adborth ynglŷn â chynnwys y cwrs ac asesu, strwythur y cwrs a'r dulliau addysgu/dysgu, a phrofiad academaidd cyffredinol eu cyd-fyfyrwyr. Gellir trosglwyddo adborth o'r fath i'r ysgolion, y colegau, Undeb Bangor (Undeb Myfyrwyr Bangor), Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr (SSLiC), a chyfarfodydd ad-hoc gyda'r staff uwch. Mae'n bwysig cynnwys staff dysgu a gweinyddol yr ysgolion a'r colegau a chael eu cefnogaeth os yw systemau o'r fath am lwyddo.
2. Mae System Cynrychiolwyr Ysgol y Brifysgol wedi'i seilio ar gydweithrediad agos rhwng y maes academaidd (yr ysgolion), Undeb y Myfyrwyr, a'r gwasanaethau canolog. Disgwylir i Gynrychiolwyr Ysgol fynychu pwyllgorau cyswllt staff-myfyrwyr mewn ysgolion. Bydd disgwyl i'r Pwyllgorau Cyswllt ystyried materion a mynd i'r afael â nhw ar lefel y coleg/yr ysgol. Disgwylir i Gynrychiolwyr Ysgol fynychu cyfarfodydd Undeb Bangor: cyfarfodydd a gynhelir rhwng cynrychiolwyr ysgol unigol a Thîm Llais Myfyrwyr Undeb Bangor. Caiff y materion a ystyrir yng nghyfarfodydd Undeb Bangor eu codi gan staff neu Swyddogion Undeb Bangor yn y Grŵp Tasg priodol, pwyllgor canolog arall neu gydag aelod perthnasol o staff y Brifysgol.
3. Mae cydweithio rhwng Cynrychiolwyr Ysgol a'r staff academaidd yn hollbwysig er mwyn ymgysylltu'n llwyddiannus â myfyrwyr. Ym Mangor, mae ymgysylltu â'r myfyrwyr yn golygu galluogi'r myfyrwyr i gymryd rhan weithredol o ran datblygu, rheoli a llywodraethu'r Brifysgol, y rhaglenni academaidd a'r profiad dysgu. Cyflawnir hynny drwy weithio mewn partneriaeth ag Undeb Bangor a'r myfyrwyr yn ehangach, a thrwy system gadarn o gynrychiolwyr ysgol sy'n cael cefnogaeth dda.
4. Nod y System Cynrychiolwyr Ysgol yw darparu cynrychiolaeth ar lefel ysgol yn hytrach nag ar lefel cwrs. Mae Cynrychiolwyr Ysgol yn gweithio fel tîm gyda'r cynrychiolwyr eraill yn eu hysgol i sicrhau bod gan fyfyrwyr yn eu hysgol gyfleoedd i roi adborth ar eu profiad academaidd, waeth beth fo'u cwrs, eu blwyddyn, eu dull astudio neu ffactorau eraill.
5. Mae'r System Cynrychiolwyr Ysgol hon wedi'i chynllunio i rymuso myfyrwyr i wneud newid ystyrlon i'w profiad academaidd, i roi'r sgiliau, y gefnogaeth a'r hyder i'n Cynrychiolwyr Ysgol i wneud gwahaniaeth ym Mangor ac i sicrhau deialog barhaus ac effeithiol rhwng y Brifysgol, Undeb Bangor a myfyrwyr, yn unol â Strategaeth Profiad Myfyrwyr Prifysgol Bangor 2030, a strategaeth Undeb Bangor 2025-30.

## Cyfrifoldebau Ysgolion

6. Fel rheol, dylai Cyfarwyddwr Ennyn Diddordeb Myfyrwyr ym mhob ysgol fod yn gyfrifol am oruchwylio'r system Cynrychiolwyr Ysgol. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y dylai'r Cyfarwyddwr Ennyn Diddordeb Myfyrwyr weinyddu'r system os oes cymorth i'w gael gan staff eraill, ond dylai'r Cyfarwyddwr sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal

yn rheolaidd, bod unrhyw faterion a godir yn cael eu hunioni, a bod y system Cynrychiolwyr Ysgol yn bodloni'r gofynion a nodir yn y Cod yma. Dylai'r Cyfarwyddwr Ennyn Diddordeb Myfyrwyr fel arfer gyd-gadeirio Pwyllgor Cyswllt Staff-Myfyrwyr yr ysgol gyda myfyriwr. Mae'r Cyfarwyddwr Ennyn Diddordeb Myfyrwyr hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y myfyrwyr yn ymwybodol o sut mae'r ysgol yn gweithio gyda'r Cynrychiolwyr Ysgol er mwyn gwella profiad y myfyrwyr yn barhaus, ac os bydd unrhyw newidiadau, dylid rhoi gwybod amdanynt yn eglur i'r corff myfyrwyr.

## Penodi Cynrychiolwyr Ysgol

7. Dylai'r ysgolion sicrhau bod nifer eu Cynrychiolwyr Ysgol yn adlewyrchu maint, cyfansoddiad a natur yr ysgol, trwy ddilyn Strwythur Cynrychiolwyr Ysgol Undeb y Myfyrwyr.
8. Penodir Cynrychiolwyr Ysgol gan Undeb Bangor, mewn cydweithrediad ag Ysgolion. Gall y broses benodi amrywio yn ôl ysgol, yn ôl faint o ddiddordeb sydd yn y rôl, a ffactorau eraill sy'n benodol i'r ysgol.
9. Lle mae rhaglenni'n ddarostyngedig i ofynion Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol, gall Ysgolion gymhwyso strwythurau cynrychioladol neu derminoleg amgen i sicrhau bod y gofynion hynny'n cael eu bodloni. Lle bydd hyn yn digwydd, dylai Ysgolion drafod cynigion gydag Undeb y Myfyrwyr, a ddylai gadw cofnod o ganlyniad y trafodaethau hyn.
10. Bydd Cynrychiolwyr Ysgol yn cael eu penodi ar ddau achlysur yn ystod y flwyddyn academaidd:
    - Cyn diwedd Semester Dau o'r flwyddyn academaidd flaenorol, i fyfyrwyr ym mlynyddoedd 2, 3, 4 neu ar gyrsiau ôl-radd,
    - O fewn pythefnos cyntaf Semester Un, i fyfyrwyr ym mlwyddyn 1 cwrs israddedig neu ôl-radd, ac i unrhyw rolau nad ydynt eisoes wedi'u llenwi.
    - Os na chaiff yr holl swyddi eu llenwi yn ystod pythefnos cyntaf Semester Un, ewch ati ar ôl y dyddiad hwnnw i lenwi pob swydd.

## Cyfarfodydd gyda Chynrychiolwyr Ysgol

11. Dylai pwyllgorau cyswllt staff-myfyrwyr ysgolion gyfarfod o leiaf ddwywaith bob semester. Dylai pob cynrychiolydd ysgol gael gwahoddiad i gyfarfodydd pwyllgor cyswllt staff-myfyrwyr eu hysgol. Dylai'r ysgolion rhoi'r wybodaeth berthnasol am amseroedd a dyddiadau cyfarfodydd pwyllgorau cyswllt staff-myfyrwyr i bob cynrychiolydd ysgol mewn da bryd cyn y cyfarfodydd.
12. Dylid hysbysu cynrychiolwyr ysgol am drefn a phrosesau pwyllgorau cyswllt staff-myfyrwyr yr ysgolion yn y cyfarfod cyntaf pob blwyddyn academaidd.
13. Dylai pwyllgorau cyswllt staff-myfyrwyr ysgolion gael eu cyd-gadeirio gan fyfyriwr ac aelod staff (fel arfer y Cyfarwyddwr Ennyn Diddordeb Myfyrwyr), ac mi gaiff hynny ei gytuno gan y pwyllgor yng nghyfarfod cyntaf pob blwyddyn academaidd. Dylai fod o leiaf dau aelod staff academaidd (heblaw'r cyd-gadeirydd) ar bwyllgor cyswllt staff-myfyrwyr pob ysgol. Lle bo angen, gellid gwahodd cynrychiolwyr o’r Gwasanaethau Proffesiynol i gyfarfod y pwyllgor cyswllt staff-myfyrwyr. Ni ddylai nifer y staff sy'n bresennol fod yn fwy na nifer y myfyrwyr.
14. Os bydd strwythurau neu derminoleg gynrychioliadol amgen yn bresennol o fewn ysgol (gweler pwynt 9), gall enghreifftiau o undod gynnwys sicrhau bod o leiaf un aelod o'r Pwyllgor Cyswllt Staff-Myfyrwyr yn cynrychioli rhaglen benodol sy'n gysylltiedig â Chorff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol.

15. Dylai ysgolion ddilyn yr agenda enghreifftiol (Atodiad 01) fel canllaw i sicrhau bod yr holl eitemau perthnasol yn cael eu cynnwys yn ystod pob cyfarfod.
16. Dylid annog yr ysgolion i ddefnyddio Log Monitro Adborth, fel yr un a welwch yn Atodiad 02, i helpu olrhain y newidiadau a wneir fel ymateb i adborth. Dylid rhannu hynny gyda holl gynrychiolwyr cwrs yr ysgol ac Undeb y Myfyrwyr.
17. Dylid anfon cofnodion pwyllgorau cyswllt staff-myfyrwyr yr ysgolion mewn da bryd at yr holl gynrychiolwyr cwrs beth bynnag eu presenoldeb yn y cyfarfodydd.
18. Dylid anfon cofnodion pwyllgorau cyswllt staff-myfyrwyr ysgolion (ac eithrio unrhyw eitemau a ddaliwyd yn ôl, e.e. materion cyfrinachol, sensitif a/neu bersonol) at Gydlynydd Cynrychiolaeth Undeb Bangor mewn modd amserol.
19. Dylid anfon cofnodion pwyllgorau cyswllt staff-myfyrwyr yr ysgol i fwrdd astudiaethau'r ysgol fel adroddiad rheolaidd.
20. Yn ogystal â phwyllgorau cyswllt staff-myfyrwyr ysgolion, dylai ysgolion sicrhau bod Cynrychiolydd Ysgol yn cael ei wahodd i unrhyw gyfarfod ffurfiol lle mae addysgu a dysgu neu brofiad y myfyrwyr yn cael eu trafod yn rheolaidd, e.e. pwyllgorau addysgu a dysgu'r ysgol / pwyllgorau myfyrwyr ôl-radd ymchwil. Rhaid i'r ysgolion hefyd sicrhau bod cynrychiolwyr ysgol yn cael eu gwahodd i fwrdd astudiaethau'r ysgol. Dylid gwneud ymdrechion i gynnwys cynrychiolwyr ysgol mewn cyfarfodydd perthnasol ar lefel y coleg.
21. Anogir cyfarwyddwyr profiad myfyrwyr i gyfathrebu'n uniongyrchol â Chynrychiolwyr Ysgol y tu allan i gyfarfodydd pwyllgor ffurfiol.
22. Yn ogystal â phwyllgorau ffurfiol, dylai ysgolion ystyried dulliau i ymgysylltu â phob carfan neu garfannau penodol o fyfyrwyr, er enghraifft cyfarfodydd yn y cnawd ar ffurf 'neuadd dref' (lle mae holl fyfyrwyr o'r ysgol neu'r garfan yn cael eu gwahodd i rannu adborth gyda staff a derbyn diweddariad ar ganlyniadau adborth blaenorol) a/neu gyfarfod holl dimau'r ysgol i gael adborth a galluogi cyfathrebu dwyffordd gweithredol. Gellir annog cynrychiolwyr ysgolion i weithio gyda staff i drefnu a llunio'r agenda ar gyfer y cyfarfodydd hyn.

### Cyfathrebu â'r myfyrwyr yn ehangach

23. Dylai ysgolion arddangos manylion cyswllt eu Cynrychiolwyr Ysgol mewn lleoliadau a ddefnyddir yn aml yn yr ysgol, yn electronig ac ar hysbysfyrddau. Dylid nodi cynrychiolwyr cyfrwng Cymraeg yn glir. Dylai rhoi manylion hysbysfwrdd Cynrychiolwyr Ysgol i bob myfyriwr yn ogystal â rhestr o Gynrychiolwyr Ysgol o fewn pedair wythnos i Semester Un.
24. Dylai'r ysgolion roi modd i Gynrychiolwyr Ysgol ddosbarthu gwybodaeth i'r myfyrwyr yn ehangach (e.e. gwefan yr ysgol/rhestrau dosbarthu e-byst).
25. Dylai Undeb Bangor (o fewn pythefnos i ddechrau Semester Un) roi rhestr o Gynrychiolwyr Ysgol i Undeb Bangor. Dylai Undeb Bangor gadw'r rhestr o Gynrychiolwyr Ysgol yn gyfredol a hysbysu ysgolion am unrhyw newidiadau.

### Cefnogaeth i Gynrychiolwyr Ysgol

26. Argymhellir bod y Cyfarwyddwr Ennyn Diddordeb Myfyrwyr yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Cynrychiolwyr Ysgol ochr yn ochr â'r Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr ffurfiol, er mwyn sicrhau bod y cynrychiolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac i nodi unrhyw faterion sy'n codi rhwng cyfarfodydd. Dylid cytuno ynglŷn ag amlder y cyfarfodydd hynny gyda'r Cynrychiolwyr Ysgol ar ddechrau pob blwyddyn academaidd.

27. Os bydd yr ysgolion yn credu nad yw'r Cynrychiolwyr Ysgol yn gwneud y pethau y dylai'r Cynrychiolwyr Ysgol fod yn eu gwneud, dylent hysbysu Cydlynydd Cynrychiolaeth Undeb Bangor. Yna dylai Undeb Bangor gysylltu â'r myfyriwr i weld a oes angen unrhyw gefnogaeth ychwanegol arnyn nhw i wneud y rôl.

**Cyfrifoldebau Undeb Bangor (Undeb y Myfyrwyr)**

28. Bydd pob Cynrychiolydd Ysgol yn cael gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd gyda Thîm Llais Myfyrwyr Undeb Bangor. Bydd cyfarfodydd yn digwydd o leiaf ddwywaith y semester.
29. Anfonir crynodeb o bob cyfarfod at yr holl Gynrychiolwyr Ysgol beth bynnag fo'u presenoldeb yn y cyfarfodydd.
30. Bydd Undeb Bangor yn darparu tudalennau penodol, gan gynnwys mynediad at adnoddau electronig ar ei wefan i System Cynrychiolwyr Ysgol y Myfyrwyr. Bydd y wefan yn dangos rhestr o enwau holl Gynrychiolwyr Ysgol pob ysgol.
31. Bydd Undeb Bangor yn cyfleu gwybodaeth a drafodwyd mewn cyfarfodydd i'r Cyfarwyddwr Ennyn Diddordeb Myfyrwyr lle bo angen.
32. Bydd Undeb Bangor yn darparu llawlyfr electronig gyda gwybodaeth ar gyfer Cynrychiolwyr Ysgol, i gynorthwyo'r myfyrwyr yn eu rôl. Adolygir llawlyfrau yn flynyddol.
33. Bydd Undeb Bangor yn darparu hyfforddiant i Gynrychiolwyr Ysgol sy'n ymwneud â strwythurau, cynrychiolaeth a democratiaeth yr Undeb. Fel rheol, caiff yr hyfforddiant ei gwblhau yn wythnos 3-5 Semester 1. Caiff yr hyfforddiant ei gydlynu gan y Cydlynydd Cynrychiolaeth.
34. Bydd Undeb Bangor yn rhoi gwybod i'r myfyrwyr, a hynny dim hwyrach nag wythnos tri Semester Un, ynghylch yr wybodaeth am yr hyfforddiant a manylion llawlyfr y Cynrychiolwyr Cwrs. I gynrychiolwyr sy'n dechrau'r rôl ar ôl y dyddiad hwn, darperir fersiwn wedi'i recordio o'r hyfforddiant.
35. Bydd yr Is-lywydd Addysg yn adolygu'r wybodaeth a gaiff gan y Cynrychiolwyr Ysgol, y colegau a'r ysgolion. Bydd unrhyw faterion a nodir yn cael eu codi gan Swyddogion Undeb Bangor yn y Grŵp Tasg priodol neu bwyllgor canolog arall.
36. Bydd Undeb Bangor yn cysylltu â'r Cynrychiolwyr Ysgol nad ydynt o bosib yn ymgymryd â'u rôl ac yn cynnig hyfforddiant a chefnogaeth ychwanegol iddynt. Os bydd y myfyriwr yn parhau i beidio ag ymgymryd â'u rolau, bydd Undeb Bangor yn gweithio gyda'r Ysgol a'r Cynrychiolydd Ysgol i gytuno ynglŷn ag ateb i bawb dan sylw, yn unol â phwynt 27 uchod.

**Cyfrifoldebau'r Gofrestrfa**

37. · Bydd cydymffurfiaeth ysgolion a cholegau â'r System Cynrychiolwyr Ysgol yn cael ei monitro fel rhan o gylch sicrhau ansawdd y Brifysgol, sy'n bwydo i'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr. Gall Undeb Bangor gyfeirio problemau brys sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r System Cynrychiolwyr Ysgol y mae angen sylw y tu allan i'r cylch archwilio, at y Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr).

**Cyfrifoldebau Cynrychiolwyr Ysgol**

38. Disgwylir i Gynrychiolwyr Ysgol:
    - Fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Cyswllt Staff-Myfyrwyr.
    - Mynychu cyfarfodydd Undeb Bangor.

- Mynychu'r hyfforddiant a ddarperir gan Undeb Bangor ar System y Cynrychiolwyr Ysgol.
- Darllen Llawlyfr Cynrychiolwyr Ysgol Undeb Bangor i ddeall eu rôl yn llawn.

39. Dylai Cynrychiolwyr Ysgol hysbysu eu hysgol a Chydlynydd Cynrychiolaeth Undeb Bangor ar unwaith os nad ydynt eisiau bod yn Gynrychiolwyr Ysgol mwyach.
40. Dylai Cynrychiolwyr Ysgol eu cyflwyno eu hunain i'r myfyrwyr sydd ar y cwrs cyn gynted â phosibl yn Semester Un. Dylai'r Cynrychiolwyr Ysgol gyfathrebu â'r myfyrwyr sydd ar eu cyrsiau i ganfod beth yw'r materion a chyflwyno adroddiad am y canfyddiadau hyn yn ôl i Bwyllgor Cyswllt Staff-Myfyrwyr yr ysgol a chyfarfodydd Undeb Bangor.
41. Dylai'r cynrychiolwyr ysgol gyflwyno gwybodaeth o Bwyllgor Cyswllt Staff-Myfyrwyr yr ysgolion a chyfarfodydd Cyngor Cynrychiolwyr Cwrs Undeb Bangor i'r myfyrwyr sydd ar eu cwrs.

**Atodiad 1**

## Agenda Enghreifftiol o Bwyllgor Staff a Myfyrwyr

**Ysgol**
**Dyddiad**
**Amser**

---

a. Croeso gan y Cadeirydd
b. Aelodau Staff sy'n Bresennol
c. Myfyrwyr sy'n Bresennol
d. Ymddiheuriadau
e. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

1. Materion yn Codi
2. Adborth gan gynnwys cyfeirio at gofnod monitro adborth a'i ddefnyddio
3. Pryderon myfyrwyr / Arfer gorau, er enghraifft yng nghyd-destun y themâu isod:
    3.1. Addysgu
    3.2. Asesu ac Adborth
    3.3. Adnoddau (e.e. y Llyfrgell, Technoleg Gwybodaeth)
    3.4. Cefnogaeth Academaidd
    3.5. Trefniadaeth a Rheolaeth
    3.6. Datblygiad Personol
    3.7. Arall
4. Sylwadau/Adborth gan grwpiau penodol o fyfyrwyr (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr)
    4.1. Myfyrwyr Cyd-anrhydedd
    4.2. Myfyrwyr rhyngwladol
    4.3. Myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg
    4.4. Myfyrwyr ag anableddau
    4.5. Myfyrwyr sy'n cymudo
5. Y diweddaraf am Gynllun Gweithredu'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr (NSS)
6. Diweddariad ar gynllun gwella'r Arolwg Profiad Ôl-raddedigion Hyfforddedig
7. · Dilysu/Ail-ddilysu Rhaglenni
8. Adroddiadau'r Arholwyr Allanol
9. Unrhyw Fater Arall
10. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

**Atodiad 2**

**Templed y Log Monitro Adborth**

Syniadau ar gyfer y cynllun:

Cynllun 1

| Eitem | Teitl | Blwyddyn | Thema | Adborth Penodol (Cadarnhaol neu Negyddol) | Penderfyniad/au neu Weithred/oedd | Gweithredu gan bwy ac erbyn pryd? | Wedi ei gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |

Cynllun 2

Adborth Myfyrwyr Israddedig Blwyddyn 1

| Eitem | Teitl | Thema | Adborth Penodol (Cadarnhaol neu Negyddol) | Penderfyniad/au neu Weithred/oedd | Gweithredu gan bwy ac erbyn pryd? | Wedi ei gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |

Adborth Myfyrwyr Israddedig Blwyddyn 2

| Eitem | Teitl | Thema | Adborth Penodol (Cadarnhaol neu Negyddol) | Penderfyniad/au neu Weithred/oedd | Gweithredu gan bwy ac erbyn pryd? | Wedi ei gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |